# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Mehefin 2il 2026 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Bro Derfel.

Presennol: Gwenda Evans, (cadeiryddes), Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Dewi Pritchard, Gwenda Morris, Gary Thomas, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Maldwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc

Ymddiheuriadau gan Rita Jones ac Iolo Evans.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mai 5ed 2026) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Gweler y ceisiadau cynllunio.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Cytunodd Gary Thomas is-gadeirydd
b) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.
c) Lloches bws newydd i Lanfor - **Roedd wedi dod i'r amlwg fod bwriad i osod lloches ar y safle yn 2022 ond oherwydd gwrthwynebiad lleol ni symudwyd y cynllun yn ei flaen a chynghori'r Cyngor Cymuned o hyn. Roedd y clerc wedi bod yn trafod y safle gydag un o Swyddogion Ymgynghoriaeth Gwynedd, ac yn aros i glywed yn nôl os fydd Llanfor yn cael ei gynnwys yn eu cynlluniau ar gyfer 2026/27.**
ch) Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026 - **Dosbarthwyd y prisiau a dderbyniwyd ar gyfer ailwynebu ffordd Mynwent Llandderfel ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gynnwys pris Oswyn Roberts gyda'r cais grant.**

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Cofnodion Cyfarfod Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn – Ebrill 29ain.
ii) Cyfyngiad traffig dros dro – Llandderfel, 2/09/26.
iii) Ymgynghoriad ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr **Gwynedd - yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ymateb i'r ymgynghoriad gan nodi'r pwyntiau canlynol:**

1) **ymwelwyr un dydd sydd yn rhoi pwysau ar y gwasanaethau lleol fwyaf, parcio anystyriol, sbwriel ayyb**
2) **nifer o campervans yn parcio ar ochrau'r ffyrdd ac ni fydd rhaid iddyn nhw dalu'r ardollau yma, sy'n anheg.**
3) **pwysau ychwanegol a'r perchnogion gwestai, tai gwyliau ayyb i gasglu'r arian a chwblhau'r gwaith papur.**
4) **pwysigrwydd defnyddio unrhyw refeniw a godwyd o'r ffioedd yma yn gyfrifol.**

iv) Cyflwr mynwent Rama.

v) Ceisiadau Cynllunio
PEDW - DNS/3276735 - Fferm Wynt Gaerwen – diweddariad. **Trafodwyd yr wybodaeth ychwanegol a oedd wedi cael ei gyflwyno. Cytunwyd nad oedd yr wybodaeth yma yn ymateb i'r pryderon a gyflwynwyd eisoes ac a gofynwyd i'r clerc anfon y sylwad yma i'r arolygwr. (Gwynedd Jones yn datgan buddiant a ddim yn cymryd rhan yn y drafodaeth).**

vi) Materion Ariannol
a) Archwiliad Blynyddol - **Yn anffodus nid oedd yr archwilwyr allanol wedi cwblhau'r archwiliad cyn y cyfarfod felly nid oedd posib ardystio'r ffurflen flynyddol.**

b)Derbyniadau – Ad-daliad TAW

c) Ceisiadau Ariannol.
**Cafwyd cais gan Kids Cancer Charity. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**Cytunwyd i symud cyfarfod mis Gorffennaf i Fehefin 30ain er mwyn cael ardystio'r ffurflen flynyddol. Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin 30ain am 7.30 y.h. yn Neuadd Bro Derfel.**